Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gwella Sicrwydd Ansawdd

**SWYDD:** Swyddog Arweiniol Datblygu'r Gweithlu

**GRADD Y SWYDD:** GR13

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Datblygu'r Gweithlu

**DIBEN Y SWYDD:**
Arwain ar ddatblygu hyfforddiant gofal cymdeithasol Plant/Oedolion, cynnig a datblygu a chyflawni mewn meysydd allweddol i wella ymarfer ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan.

Cynorthwyo Rheolwr Datblygu'r Gweithlu â chydlynu a rheolaeth weithredol Gwasanaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Rhoi cyngor, arweiniad ac ymgynghoriad i staff y Gyfarwyddiaeth ac asiantaethau annibynnol a thrydydd sector ynghylch datblygu'r gweithlu ac arwain cyfleoedd yn unol â dilyn gofynion Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynorthwyo Rheolwr Datblygu'r Gweithlu wrth gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a chyfrannu at Gynllun Datblygu'r Gweithlu blynyddol sy'n sicrhau bod yr amcanion strategol allweddol yn cael eu cyflawni.
- Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid yn fewnol ac yn allanol i sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn cyflawni'n ymatebol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion a gofalwyr sy'n cael mynediad at ofal a chymorth. Cynnwys unigolion a gofalwyr wrth nodi, cynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu.
- Rheoli perthnasoedd asiantaethau a chyflenwyr allanol, gan sicrhau bod yr holl ddeunyddiau dysgu, adnoddau, cyflwyno sesiynau wedi'u comisiynu o ansawdd uchel a gwerth am arian, wedi'u cyflwyno yn unol â'r contract y cytunwyd arno, yn diwallu'r anghenion a nodwyd, ac yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd.
- Gwerthuso effaith rhaglenni, gan nodi materion ychwanegol, risgiau a meysydd ar gyfer datblygu wrth iddynt godi, ac argymell camau gweithredu priodol a chynigion ar gyfer newid, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd hirdymor mwyaf posibl rhaglenni unigol i'r sefydliad.
- Rheoli adnoddau dynodedig yn effeithiol gan gynnwys rheolaeth ariannol cyllidebau dirprwyedig a chronfeydd grant.
- Dirprwyo dros y Rheolwr Datblygu'r Gweithlu, gan gymryd cyfrifoldeb dirprwyedig ar gyfer datblygu mentrau, presenoldeb mewn cyfarfodydd

uwch reoli, presenoldeb mewn fforymau rhanbarthol neu genedlaethol a chyfarfodydd Gofal Cymdeithasol Cymru.

- Cychwyn a chyflawni prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad a datblygiad proffesiynol staff ar draws y gyfarwyddiaeth.
- Arwain ar ddatblygu a chynnal adnoddau ar-lein gan gynnwys canllawiau ymarfer. Cyfrannu at ymchwil, datblygu, gweithredu ac adolygu polisi a gweithdrefnau yn y gyfarwyddiaeth a chyda phartneriaid ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen.
- Darparu rheolaeth linell i aelodau o staff yn y tîm.
- Bod yn fodel rôl ac eirioli ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus;sicrhau bod y tîm datblygu'r gweithlu yn cynnal safonau proffesiynol ac yn gwybod y diweddaraf am arfer cenedlaethol ac arfer gorau perthnasol sy'n dod i'r amlwg ym maes datblygu'r gweithlu.
- Ymchwilio, coladu a lledaenu arfer da ar draws y maes gofal cymdeithasol, i staff, uwch swyddogion, aelodau, rhanddeiliaid perthnasol eraill.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y [Polisi Iechyd a Diogelwch]

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Swyddog Arweiniol Datblygu'r Gweithlu

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster gwaith cymdeithasol ynghyd â chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Addysg hyd at lefel gradd Meistr neu gyfwerth.<br>• Cymhwyster a/neu hyfforddiant rheoli priodol neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad.<br>• Cymhwyster perthnasol mewn dysgu a datblygu e.e. EATS/PTLLS/TAR.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso sylweddol mewn lleoliad gofal cymdeithasol statudol.<br>• Gwybodaeth am ddulliau i helpu eraill i ddysgu a gwella ymarfer ar lefel unigol a gwasanaeth.<br>• Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol i gynnwys deddfwriaeth bresennol, rheoliadau, canllawiau a safonau ac ymarfer a'r ymchwil sy'n sail i hyn.<br>• Llwyddiant blaenorol mewn rôl oruchwylio, hyfforddi neu fentora.<br>• Profiad o hyrwyddo, datblygu, rhoi cyflwyniadau a hyfforddiant i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.<br>• Profiad o asesu/mentora myfyrwyr gwaith cymdeithasol/gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd â rhaglenni ôl-gymhwyso. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Profiad o gynrychioli sefydliad a chyflwyno gwybodaeth mewn lleoliad amlasiantaethol.<br>• Profiad o adolygu polisïau ac arferion presennol a chyfrannu at ddatblygu a gweithredu datblygiadau polisi newydd.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau a rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol, e.e. cyllidebu a gweithdrefnau ariannol eraill, gweithdrefnau personél a gweithdrefnau contractio.<br>• Rheoli adnoddau ffisegol ac ariannol. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Yn rhagweithiol gyda hunangymhelliant, i nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer eich hun ac eraill. Rheoli eich llwyth gwaith eich hun, gan ymateb yn hyblyg ac yn adeiladol i flaenoriaethau a phwysau sy'n gwrthdaro â'i gilydd.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau i fodloni gofynion gwasanaeth ac atebion arloesol.<br>• Gallu dewis yr arddull gyfathrebu, dull, a sianel fwyaf priodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn benodol ac yn cael ei deall gan y gynulleidfa darged.<br>• Gallu gwneud gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â gwaith.<br>• Gallu meddwl yn eang a chynllunio'n strategol; gan gynnwys gallu gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth a dynamig.<br>• Gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a gwneud penderfyniadau a dyfarniadau cadarn ac amserol.<br>• Yn gymwys wrth ddefnyddio TGCh i gynnwys cymwysiadau Microsoft a hwyluso dysgu o bell. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr a rhanddeiliaid mewnol ac allanol. | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu cyfathrebu amcanion prosiect, cynnydd a monitro eitemau cyflawnadwy ac ymgysylltu â chydweithwyr i fodloni terfynau amser. Platfformau fel Teams.<br>• Gallu cynnig arweiniad a chyngor proffesiynol i staff ar faterion dysgu a datblygu.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk